

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dyfodol casglu data ystadegol  
amaethyddol yng Nghymru

Gorffennaf 2013



## Crynodeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad â defnyddwyr i gael eu barn ar ddyfodol dulliau casglu data ystadegol amaethyddol yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i gael barn ein defnyddwyr rheolaidd yn Llywodraeth Cymru a'r sector amaethyddol yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr.

Mae'r safbwyntiau hyn yn werthfawr gan y gallant ddangos barn defnyddwyr terfynol, yn ogystal â barn y rhai sy'n sefydlu a chynllunio'r dulliau casglu hyn.

Un o sbardunau allweddol yr ymgynghoriad hwn oedd asesiad diweddar gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig o allbynnau amaethyddol. Mae ei adroddiad yn nodi amryw o ofynion i newid yr allbynnau hyn. I weld yr adroddiad, dilynwch y [ddolen hon](#) (Saesneg yn unig).

At hynny, mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at yr Adolygiad ar wahân o Niferoedd Defaid yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr gan ddefnyddio data'r Stocrestr Defaid a Geifr (SAG).

Mae'r erthygl ystadegol hon, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, ar gael [yma](#).

Hwyrach yr hoffai darllenwyr ddarllen y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd mewn perthynas â Chwestiynau 7 i 10.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng **22 Mawrth 2013 a 24 Mai 2013**.

Cafwyd cyfanswm o 6 (chwech) ymateb uniongyrchol i'r holiadur, a hoffem ddiolch i bob un o'r chwech am roi o'u hamser i fynegi eu barn.

Cafwyd hefyd un ymateb uniongyrchol i ddatganiad penodol yn y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd, a byddwn yn rhoi sylw i hwnnw yn y ddogfen hon.

Mae corff yr adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn disgrifio pa gamau y byddwn yn eu cymryd mewn perthynas â nhw.

Mae'r adroddiad isod yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â rhai dyfyniadau uniongyrchol lle maent yn berthnasol.

Gan y cafwyd nifer sylweddol o ymatebion i'r cwestiynau, mae'r rhain wedi'u hatodi fel sy'n briodol tuag at ddiwedd y ddogfen.

## Cyflwyniad

Rhoddir crynodeb o gefndir yr ymgynghoriad yn yr adroddiad hwn.

Mae cefndir llawn yr ymgynghoriad ar gael yn y [ddogfen ymgynghori](#):

Cynhaliwyd ymgynghoriad, yn unol â'r Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol, fel y gallai defnyddwyr wneud sylwadau ar y newidiadau arfaethedig.

Mae timau ystadegol a pholisi Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn mewn egwyddor.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o naw wythnos o 22 Mawrth 2013 tan 24 Mai 2013.

## Methodoleg

Roedd y ddogfen gefndir sy'n esbonio'r ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb ar gael trwy wefan ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

Cafwyd ymatebion ar ffurflenni ymateb Excel, fel PDF mewn un achos neu fel sylwadau mewn e-bost, yn dilyn strwythur y cwestiynau.

Cafodd pob ymatebydd gyfle i gyflwyno ei sylwadau'n ddiennw.

Mae'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad yn Atodiad 1.

## Canlyniadau

Cafwyd chwech ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd rhai yn seiliedig ar yr holiadur, a chyflwynwyd eraill fel ymateb uniongyrchol. Diolch i bawb a ymatebodd.

Cafwyd hefyd un ymateb uniongyrchol i ddatganiad penodol yn y ddogfen ymgynghori a ddisbarthwyd. Felly, er bod y sylw wedi'i ychwanegu nid yw wedi'i ddefnyddio yn y dadansoddiad o'r canlyniadau hyn.

Cafwyd yr ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

Sefydliad	Nifer yr ymatebion
Undebau'r Amaethwyr	2
Sefydliadau amaethyddol eraill	2
Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	1
Arall	1

## Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad

Cafwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau yn y sector amaethyddol. Sefydliadau llywodraeth, undebau a chyryff eraill yn y sector yw'r rhain yn gyffredinol.

Yn unol â chanlyniadau ein hymgynghoriad ar yr [Adolygiad o Allbynnau Ystadegau Amaethyddol](#), mae'r ymatebion yn bennaf gan bobl sydd eisoes yn gwybod llawer am amaethyddiaeth ac sydd am gael y ffigurau diweddaraf i'w helpu yn eu gwaith. Mae hyn yn ddealladwy o ystyried natur yr ymgynghoriad.

Eto, ni chafodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) ymatebion gan ddefnyddwyr nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth na sylwadau uniongyrchol gan y cyhoedd ac ati.

Fodd bynnag, nododd Undeb Amaethwyr Cymru ei fod wedi crynhoi safbwyntiau ei swyddogion a'i aelodau; rydym yn croesawu ei agwedd ragweithiol yn y materion hyn.

Felly, nid ydym wedi cael unrhyw ymatebion uniongyrchol gan bobl y byddem yn disgwyl iddynt lenwi ein ffurflenni - ffermwyr, perchnogion/meddianwyr ac ati dir yng Nghymru. Mae hyn yn cael effaith gan ein bod hefyd yn awyddus i arddangos ein cynlluniau a'n gweithrediadau a fydd yn effeithio ar y defnyddwyr sylfaenol hynny yn y pen draw.

Wrth ymateb i'r ymatebion hyn, mae angen i ni ystyried y rhagfarn bosibl hon. Er hynny, byddai KAS yn annog darllenwyr y Crynodeb o Ymatebion hwn i'w ddsbarthu ymhlith y rhai y maent yn eu cynrychioli ac eraill er mwyn lledaenu'r neges ein bod yn gwneud ein gorau glas i sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid yng Nghymru.

Ni all KAS gyflwyno penderfyniadau heb ymgysylltu â'r defnyddwyr terfynol. Mae'r [adolygiad](#) a gyhoeddwyd o ddata gweinyddu defaid o'r Stocrestr Defaid a Geifr a'r ymateb hwn yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru am fynd ati i wneud unrhyw benderfyniadau gyda'n cwsmeriaid a budd ddeiliaid – mae lefel y manylder a'r ymgysylltu â chwsmeriaid *allanol* yn hollbwysig er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Mae KAS yn ymwybodol o raglen [Hwyluso'r Drefn](#) sy'n ceisio lleihau'r baich biwrocratiaeth ar ffermwyr - mae KAS wrthi'n ymgysylltu ar bob lefel i geisio lleihau gwaith papur i'n cwsmeriaid a byddwn yn fwy na pharod i drafod gydag unrhyw un sydd am gael mwy o wybodaeth.

Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae defnyddwyr terfynol am weld ansawdd y cynnyrch terfynol yn cael ei gynnal a data gweinyddol yn cael ei ddefnyddio a'i wella. Mae lleihau'r baich gwaith papur yn rhan allweddol o hyn, ond nid ar draul ansawdd data.

Yn gyffredinol, mae ymatebion ein defnyddwyr yn cyd-fynd â'n cynigion, ond mae'n bwysig cofio na fydd un ateb yn gwneud i bawb.

Gall yr awydd i symud i gasglu data ar-lein yn unig fod ar draul y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrd at y dibenion hyn, ond mae [Taliadau Gwledig Cymru \(RPW\) Ar-lein](#) yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod ffurflen y Cais Sengl ar gael ar-lein.

Byddai'n gwneud synnwyr i KAS ddefnyddio'r un broses i gasglu gwybodaeth, yn hytrach na dyblygu system newydd ond mewn modiwl ar wahân i ffurflen y Cais Sengl h.y. yr un manylion mewngofnodi.

Mae ein gwaith ymgysylltu â budd deiliaid wedi dangos i ni nad oes unrhyw awydd i ychwanegu at faich ffurflen y Cais Sengl, ar-lein neu fel arall, ac adlewyrchir hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Felly, byddai pobl nad ydynt yn rhan o RPW Ar-lein a/neu'n derbyn taliadau yn dal i dderbyn ffurflenni papur ar gyfer Arolwg Amaethyddol Mehefin.

Mewn gwirionedd, dylai meddu ar fanylion mewngofnodi ar gyfer y porth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein olygu na fydd y cwsmeriaid hynny'n cyflwyno ffurflenni papur (ar gyfer prif ffurflenni mis Mehefin) yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae KAS yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwneud taliadau trwy RPW Ar-lein ac nid yw am atal na gohirio'r prosiect trwy fynnu (neu orfodi) datblygiad ar gyfer darpariaeth ystadegol yn y dyfodol mor hwyr yn y broses.

- **Felly, bydd KAS yn parhau i ddefnyddio ffurflenni papur ar gyfer ein holl gwsmeriaid a'n nod yw sicrhau bod gennym 'fodiwl ystadegol' ar waith trwy byrth ar-lein sefydledig o 2017 ymlaen.**
- **Byddai hyn yn golygu na fydd y rhai sy'n hawlio drwy ffurflen y Cais Sengl yn derbyn ffurflenni papur ar gyfer ystadegau o 2017 ymlaen (gan y byddai'r manylion mewngofnodi'r un fath). Bydd yn dod i ben gasgliad papur am tua 12,00 o ein cwsmeriaid.**
- **Mae hyn yn dibynnu ar amryw o ffactorau ond bydd ffurflenni papur yn dal i fod ar gael yn y cyfamser. Bydd arolygon i'r diben yn dal i gael eu hanfon ar bapur at bawb.**
- **Byddai'r rhai nad ydynt yn hawlio drwy ffurflen y Cais Sengl yn dal i dderbyn ffurflen papur a byddai'r ddarpariaeth ar-lein ar gyfer y cwsmeriaid hyn i'r dyfodol yn cael ei harchwilio.**

Bydd KAS hefyd yn pwysu a mesur y dichonoldeb mewn perthynas ag:

- **Arolwg o Arferion Ffermio (FPS) yng Nghymru;**
- **Cysylltu â chydweithwyr eraill i asesu dichonoldeb defnyddio data gweinyddol ar gyfer tir o dan gynlluniau amgylcheddol;**
- **Datganiad mewn perthynas ag Ystadegau Llaeth manwl ar gyfer Cymru;**
- **Erthyglau sy'n cyhoeddi canlyniadau dadansoddiad cyfredol KAS o ddata Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS).**

O ran Arolwg Amaethyddol Rhagfyr, gan gyfeirio hefyd at yr erthygl ystadegol a gyhoeddwyd heddiw:

- **Bydd yr arfer o gasglu ystadegau Arolwg Amaethyddol Rhagfyr ar bapur yn dod i ben yn syth, ond bydd canlyniadau Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yn dal i gael eu rhyddhau ar ffurf bwletin gan ddefnyddio a chyfeirio at ffynonellau data gweinyddol**
  - *Bydd data defaid yn deillio o'r Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr (yn amodol ar amryw o gafeatau, gan gynnwys adolygu'r cwestiynau);*
  - *Bydd data cnydau'n deillio o'r Awdurdod Ydau Cartref (HGCA);*
  - *Bydd data gwartheg yn parhau i ddeillio o BCMS;*
  - *Cynhelir arolwg o niferoedd moch dros y ffôn.*
- **Ni fydd ystadegau gwair a silwair yn cael eu casglu mwyach, ond bydd KAS yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu cwestiynau at Arolwg o Arferion Ffermio (FPS) yng Nghymru yn y dyfodol.**
- **Gall gwybodaeth am wrtaith gael ei chynnwys yn yr FPS gan ei bod hi'n annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu mwy o ddarpariaeth i'r Arolwg o Arferion Gwrtaith ym Mhrydain (BSFP).**
- **Byddwn yn ymchwilio i awgrym y gallai gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif gan gyflenwyr gael ei chynnwys wrth gasglu data gwrtaith fel y cyflawnir gan y BSFP.**

## **Cynllun gweithredu (nid yw'n hollgynhwysol)**

**Gorffennaf/Awst/Medi 2013** – parhau i ymchwilio a dadansoddi data'r System Orlhain Gwartheg i'w gyhoeddi yn 2013 a 2014.

**Awst 2013** - ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif gan gyflenwyr gwrtaithe gael ei chynnwys wrth gasglu data gwrtaithe fel y cyflawnir gan y BSFP.

**Medi 2013** – asesu dichonoldeb Arolwg o Arferion Ffermio (FPS) yng Nghymru a chysylltu â chydweithwyr eraill i ymchwilio i ddata ar gyfer tir o dan gynlluniau amgylcheddol a gwerthuso pa mor gyfredol ydyw.

**Hydref 2013** – dechrau prosiect peilot i gymharu data arolwg a data tir/cnwd ffurflen y Cais Sengl.

**Rhagfyr 2013** – nid yw Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yn cael ei gynnal fel ymarfer ar bapur mwyach. Cynhelir arolwg o niferoedd moch dros y ffôn.

**Ionawr 2014** – defnyddio data'r Stocrestr Defaid a Geifr i gynhyrchu canlyniadau ar gyfer Arolwg Amaethyddol Rhagfyr.

**Chwefror 2014** – cyhoeddi canlyniadau Arolwg Amaethyddol Rhagfyr ochr yn ochr â chyflwyno ffigurau statudol i'r Undeb Ewropeaidd.

**Mai/Mehefin 2014** – rhyddhau data'r Stocrestr Defaid a Geifr ar lefel Rhanbarth Amaethyddol Cymru – ni chaiff unrhyw ddata adnabod ei ryddhau. Bydd KAS yn cysylltu â chydweithwyr mapio er mwyn sicrhau datganiad llawn a chynhwysfawr.

**Hyd at 2017** – cysylltu â chydweithwyr yn Taliadau Gwledig Cymru gyda'r nod o roi modiwl ystadegau ar waith yn Rhaglen RPW Ar-lein.



## Cwestiwn 1

### A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i barhau i ddefnyddio arolygon papur?

YDW	NAC YDW	DIM YMATEB	CYFANSWM
2	3	1	6

Mae DIM YMATEB yn golygu methu dewis rhwyg YDW neu NAC YDW

Yr ymateb cyffredinol oedd bod yr egwyddor o KAS yn gweithio'n rhagweithiol gyda budd ddeiliaid ac eraill er mwyn ceisio lleihau'r beichiau sy'n gysylltiedig â chasglu data yn cael ei chroesawu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â phrosiect 'Hwyluso'r Drefn'. <<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/workingsmarter/?lang=cy>>

Er bod llawer o bartïon yn cytuno mai casglu data ar-lein yw'r dull mwyaf hwylus o gipio data, credant na ddylid cael gwared ar ffurflenni papur yn gyfan gwbl.

Cafwyd yr un ymateb gan bartïon a oedd o'r farn mai ffurflenni papur oedd y ffordd orau o gasglu gwybodaeth o'r fath ond y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer llenwi ffurflenni ar-lein.

Mae'r mater o ddyblygu hefyd yn bwynt dilys – efallai y bydd data gweinyddol ar gael o ffynonellau eraill ac mae KAS wedi ymrwymo i'r [Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol](#) (Saesneg yn unig) - Protocol Tri – o ran cwmpasu unrhyw ddata gweinyddol.

Nododd rhai o'r partïon a ymatebodd na fyddai casglu gwybodaeth ychwanegol o ffurflen y Cais Sengl yn ateb ymarferol ac mai dim ond gwybodaeth ar y ffurflen honno y dylid ei defnyddio, gan beidio ag ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Mae KAS yn cytuno - fel rhan o gyfarfodydd Budd ddeiliaid Taliadau Gwledig Cymru (mae'n bosibl bod rhai o'r partïon sy'n mynychu'r cyfarfodydd hynny wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn), efallai eu bod yn ymwybodol bod KAS yn archwilio'r posibilrwydd o wneud darpariaeth ystadegol ar-lein trwy brosiect RPW Ar-lein yn y dyfodol ond fel modiwl ar wahân h.y. ar wahân i ffurflen y Cais Sengl.

Mae KAS yn credu bod yna ateb ymarferol, ond nid ar draul cyflawni prosiect RPW Ar-lein. I'r perwyl hwnnw, bydd KAS yn gweithio gyda chydweithwyr yn Taliadau Gwledig Cymru gyda'r nod o gyflwyno modiwl ar-lein o fewn porth RPW Ar-lein ond dim ond ar ôl i brif brosiect RPW Ar-lein gael ei gwblhau.

Yn amodol ar drafodaethau pellach, mae KAS yn bwriadu gweithio gyda Taliadau Gwledig Cymru i dreialu dewis i gyflwyno ystadegau ar-lein o 2017 ymlaen. Fodd bynnag, dylai unigolion gael cyfle i ddewis defnyddio dulliau amgen o gasglu data. Bydd dulliau casglu data ar bapur yn parhau. D.S. Bydd yna brosiect peilot i KAS gymharu data arolwg a data tir ffurflen y Cais Sengl yn 2013.

Cafwyd un sylw yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar-lein yn ystod blwyddyn 'cyfrifiad' lawn h.y. blwyddyn sy'n diweddu gyda '0'. Hyd yn oed mewn blwyddyn 'cyfrifiad', mae'n ddefnyddiol nodi bod KAS yn dal i samplu sampl gynrychiadol gyfrannol - nid yw pawb yn cael ei ddewis. Mae [canlyniadau Arolwg Amaethyddol Mehefin 2010](#) (Saesneg yn unig) yn esbonio hyn yn fanylach.

Mae'r ymateb cyffredinol yn ffafrio rhoi dewis i'n cwsmeriaid a gweithio gyda nhw i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol ar gyfer casglu data.

## Cwestiwn 2

**Ai arolygon papur yw'r ffordd orau o gynnal arolygon afreolaidd bychan?**

IE	NA	DIM YMATEB	CYFANSWM
2	2	2	6

Yn bennaf oherwydd y rhesymau a restrir yn erbyn Cwestiwn 1 – roedd yr ymatebion yn debyg iawn a bydd y camau y bydd KAS yn eu cymryd yr un fath.

Yn y cyfamser, bydd data'n parhau i gael ei gasglu ar bapur hyd nes y bydd unigolion yn gallu dewis rhwng darpariaeth ar-lein a/neu ffurflenni papur.

## Cwestiwn 3

**A ydych chi'n credu y dylem roi'r Arolygon blynyddol ar-lein?**

YDW	NAC YDW	DIM YMATEB	CYFANSWM
5		1	6

Roedd y sawl a ymatebodd DIM YMATEB i'r cwestiwn hwn yn methu â dewis rhwng YDW ac NAC YDW. Mae llawer o'r eitemau wedi cael sylw yn yr ymateb i Gwestiwn 1.

Yr ymateb cyffredinol yw y dylid sicrhau bod yr Arolygon blynyddol ar gael ar-lein (gyda'r cafeat y gellir dewis y dull casglu).

Y farn gyffredinol yw bod pobl yn gallu llenwi ffurflenni ar-lein yn haws ac yn gyflymach, a bod ymateb gwell yn golygu data mwy cadarn - egwyddor graidd mewn unrhyw ymarfer casglu data.

## Cwestiwn 4

**A ydych chi'n defnyddio'r data yn ein cyhoeddiadau?**

YDW	NAC YDW	DIM YMATEB	CYFANSWM
5		1	6

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio allbynnau KAS, felly gall KAS fod yn ffyddiog y bydd yr ymatebion yn cael eu rhoi gan ddefnyddwyr terfynol â diddordeb gwrthrychol.

## Cwestiwn 5

Y ffurflenni hyn sydd ar hyn o bryd yn darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gyhoeddir yn ein Datganiadau Ystadegol, penawdau, cyhoeddiadau a bwletinau. Pe na bawn yn casglu data, gallai hynny o bosibl effeithio ar y cyhoeddiadau hynny – beth fyddai

effaith peidio â chasglu unrhyw ddata (a thrwy hynny peidio â chyhoeddi data) ar eich gwaith?

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn agored hwn yn cael eu nodi'n fanylach yn Atodiad 1

## Cwestiwn 6

**A oes yna ddata nad ydynt yn cael eu casglu yr hoffech eu gweld yn cael eu casglu?**

OES	NAC OES	DIM YMATEB	CYFANSWM
3	1	2	6

Os felly, rhowch resymau a defnyddiau?

Mae'r sylwadau agored a dderbyniwyd wedi'u rhestru yn yr Atodiadau.

O'r 3 ymateb 'OES', dim ond dau oedd yn gwneud sylwadau agored y bydd KAS yn ymateb iddynt fesul pwynt:

- 1. Byddai data manylach ar arferion ffermio'n ddefnyddiol i'r sector llaeth er mwyn cyfrannu at Dairy Road Map Cymru e.e. tir o dan gynlluniau amgylcheddol fesul sector. Byddai mwy o fanylion am ddsbarthiad y fuches odro'n ddefnyddiol hefyd e.e. proffil oedran.***

Mae KAS a Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda DairyCo ac Uned Strategaeth a Pholisi Bwyd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r [Diwydiant Godro](#) a chynhaliwyd trafodaethau gyda chynrychiolwyr DairyCo yn ddiweddar iawn.

Mae KAS hefyd yn awyddus i sicrhau bod data ar gael lle bo hynny'n bosibl a phan fo'r data'n ddigon cadarn i wneud hynny – gan fod y data gwartheg bellach yn deillio o Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), gall KAS gyhoeddi gwybodaeth am oedran fel erthygl yn y dyfodol agos.

Roedd hyn eisoes wedi'i grybwyll gyda DairyCo fel gwaith posibl yn y dyfodol, yn ymwneud â chyflwyno Ystadegau Llaeth Cymru i ymchwilwyr bob dwy flynedd, ond y brif broblem yw'r anghysondeb mewn data a data wedi'i ddadgyfuno ar lefel Cymru.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw ein helpu i greu mandad i ddatblygu'r pwyntiau hyn – nid oes pwynt casglu data os nad yw pobl am ei weld neu os nad oes angen y data, ac ni ddylid chwaith casglu data os na fydd yn cael ei ddefnyddio – bydd hyn yn ein helpu ni i lywio datblygiadau i'r dyfodol.

Mae yna hefyd rywfaint o waith dadansoddi ar y gweill ynglŷn â threisiedi/heffrod yng Nghymru defnyddio data o'r System Olrhain Gwartheg (CTS) – elfen nad yw data BCMS yn ei disgrifio'n fanwl trwy ddadansoddiad trylwyr o'r setiau data ar gyfer anifeiliaid unigol. Mae KAS yn deall bod gan ymchwilwyr a chyrrff y diwydiant cig, yn ogystal â chydweithwyr polisi, ddiddordeb mewn dadansoddiad o'r fath.

Mewn perthynas â thir o dan gynlluniau amgylcheddol, bydd rhaid i KAS gysylltu â chydweithwyr eraill sy'n cynnal a chadw'r data hwnnw i weld a yw hynny'n bosibl.

Mae data Arolwg o Arferion Ffermio (FPS) yn fater arall a grybwyllwyd gan KAS yn ddiweddar. Mae KAS yn ymwybodol bod partion wedi mynegi diddordeb mewn cael

set ddata i Gymru gan fod yr un arolwg wedi'i gynnal gan DEFRA yn Lloegr. Mae gan ymchwilyr a chydweithwyr polisi (gan gynnwys staff DEFRA) ddiddordeb mewn cael FPS yng Nghymru er mwyn creu set ddata lawn ar gyfer Cymru a Lloegr at ddibenion dadansoddi.

Mae Cymru wedi casglu data tebyg (yn rhannol) trwy'r Arolwg o Ddulliau Cynhyrchu Amaethyddol (SAPM) yn 2010 - fel rhan o Arolwg Strwythur Fferm 2010 yr UE. Yn anffodus, nid oedd y data'n ddigon cadarn i'w gyhoeddi. Disgwylir y SAPM nesaf yn 2016 neu 2017.

Mae KAS yn credu y gallai FPS Cymru fod yn bosibl pe bai'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Bod yna dystiolaeth sydd ei hangen;
- Bod digon o gyllid ar gael i dalu costau uniongyrchol ac anuniongyrchol yr arolwg (i gynnwys dadansoddi a chyhoeddi'r canlyniadau);
- Bod yna gytundeb ynglŷn â'r hyn a ofynnir yn yr Arolwg o ran cynnwys, gan fod DEFRA yn cynnal amryw o wahanol arolygon FPS gyda chynnwys gwahanol;
- Bod gwerthusiad yn cael ei gynnal i weld a fyddai angen cynnal yr FPS yn flynyddol neu'n llai/mwy aml. Os na wneir hyn, gallai fod perygl y bydd FPS Cymru yn cael ei gynnal yn afreolaidd ac efallai y bydd angen cynnal gwerthusiad arall;
- Bod yna gydnabyddiaeth efallai na fydd llawer o bobl yn ymateb i'r arolwg oni bai ein bod yn gwneud ymdrech i hysbysu ein cwsmeriaid am ei fanteision a'r angen i gwblhau'r Arolwg a chydabyddiaeth o waith KAS o ran samplu'r cwsmeriaid priodol;
- Bod prosiect Hwyluso'r Drefn ar waith a bod y bwrdd prosiect a budd ddeiliaid yn cael dweud eu dweud cyn cyflwyno'r FPS.
- Bod yr Ystadegydd Materion Gwledig yn cymeradwyo'r arolwg.

**2. Ar gyfer y sector defaid, byddai NSA CYMRU yn gwerthfawrogi data ar a yw ffermwr yn fridiwr dras neu'n magu defaid masnachol, neu'r ddau. Byddai hyn yn darparu mwy o wybodaeth i'r NSA ac eraill am wahanol fathau o ffermydd, gan fod eu dosbarthu fel ffermydd mynydd neu ffermydd ar lawr gwlad yn unig yn cuddio llawer iawn o fanylion.**

**Byddai gofyn i ffermwyr defaid pa frid o ddefaid sydd ganddynt yn ddefnyddiol hefyd. Ar hyn o bryd, dim ond bob deg mlynedd y cynhelir arolwg o fridiau defaid ac ychydig iawn o ffermwyr sy'n ymateb.**

**Byddai cael darlun mwy cyfredol a manwl o fridiau defaid a'u dosbarthiad rhanbarthol yn help mawr i waith yr NSA ac NSA CYMRU, yn ogystal â sefydliadau eraill. Yn ogystal, byddai gwybodaeth o'r fath yn hollbwysig yn ystod achosion o glefydau, gan y byddai rhai bridiau sydd ond i'w cael mewn ardaloedd daearyddol penodol mewn perygl mawr pe bai defaid yn gorfod cael eu difa.**

Trwy drafodaethau gyda chydweithwyr polisi ac eraill ac aelodaeth o weithgorau budd ddeiliaid, mae KAS yn ymwybodol bod yna bolisi clir sy'n nodi na ddylai ein cwsmeriaid orfod ysgwyddo baich cwestiynau ychwanegol diangen mewn unrhyw gyd-destun.

Fodd bynnag, dylid sicrhau cydbwysedd o ran defnyddio dulliau cyswllt cyfredol hyd eithaf eu gallu a gwerth dull casglu o'r fath.

Mae KAS yn credu bod yna ddigon o ffynonellau gwybodaeth, megis cymdeithasau bridiau, sy'n gallu darparu gwybodaeth am a yw ffermwr yn fridiwr dras ai peidio, gyda llawer ohonynt wedi'u rhestru ar eu gwefannau eu hunain, felly maent eisoes ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all y wybodaeth hon fod yn gyflawn (neu byddai NSA Cymru yn ei defnyddio).

O waith cyhoeddedig gan KAS:

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/agriculture2013/welsh-agricultural-statistics-2011/?lang=cy>

yn enwedig o ran strwythur ffermydd, da byw a daliadau, mae'n gymharol hawdd pennu cyfanswm nifer y bridwyr defaid masnachol.

**Mae KAS yn hapus i gael trafodaeth uniongyrchol gydag NSA Cymru ynglŷn ag unrhyw ddarpariaeth i'r dyfodol, a byddai'n ei gwahodd i wneud hynny.**

Rhaid ystyried materion dealedig megis deddfwriaeth diogelu data hefyd, a dim ond gwybodaeth gyfunol y dylid ei chyhoeddi.

Nid yw KAS yn dosbarthu ffermydd fel ffermydd mynydd neu lawr gwlad yn unig – mae yna lawer o lefelau eraill megis rhanbarth, y math o fferm a maint economaidd.

Gellir hefyd ddefnyddio data o'r Arolwg Busnes Fferm:

<http://www.aber.ac.uk/en/ibers/enterprise-kt/fbs/> (Saesneg yn unig)

Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf ar Fridiau Defaid yn 2003:

<http://archive.defra.gov.uk/evidence/economics/foodfarm/reports/documents/pollott2003.pdf> (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd arolwg arall o fridiau gan EBLEX a HCC yn 2012, ac fe'i dadansoddwyd gan Signet:

<http://www.signetfbc.co.uk/news/index.aspx?section=66&item=276> (Saesneg yn unig)

Er ei bod hi'n ymddangos bod arolwg o fridiau'n cael ei gynnal tua bob deng mlynedd, byddai'n anodd i KAS a Llywodraeth Cymru gyfiawnhau casglu data ychwanegol pan fo'r data'n bodoli mewn man arall. Byddai gan KAS ddiddordeb mewn dadansoddi'r arolwg hwn at ddibenion cyfeirio.

Fodd bynnag, mae KAS yn nodi sylwadau NSA Cymru ynglŷn â'r cyfraddau ymateb i'r arolwg o fridiau a gynhelir bob deng mlynedd – mae'n ddefnyddiol nodi bod KAS eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda sefydliadau eraill, ac yn parhau i wneud, mewn perthynas â rhannu arferion da a darparu cyngor yn ôl y galw ar wella cyfraddau ymateb.

Yn ogystal, gyda'r cynnig ar wahân i ddefnyddio data'r Stocrestr Defaid a Geifr Flynyddol, gall hyn ddarparu mwy o ddata amaethyddol rhanbarthol ar faint diadell neu lefel daliad yng Nghymru o gymharu ag Arolwg Amaethyddol Rhagfyr - yn enwedig o ystyried bod strwythur y diwydiant defaid yn wahanol iawn ym mis Rhagfyr o gymharu â mis Mehefin. Mae KAS yn gobeithio cynnal dadansoddiad tymhorol hirdymor yn y maes hwn yn y dyfodol.

## Cwestiwn 7

**A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi'r gorau i Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yng Nghymru a defnyddio data'r Stocrestr yn lle data'r Arolwg? Os ydych, esboniwch pam?**

YDW	NAC YDW	DIM YMATEB	CYFANSWM
4	2		6

Cafwyd ymateb clir gan sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr unigol a atebodd YDW dros ddefnyddwyr y data a ddywedodd NAC YDW.

Er mwyn lleihau'r baich gwaith papur ar ein ffermwyr, roedd y rhai a atebodd YDW o'r farn y byddai dod ag Arolwg Amaethyddol Rhagfyr i ben yn osgoi dyblygu, yn darparu canlyniadau gwell ac yn safoni dull DEFRA yn Lloegr trwy ddefnyddio data'r Stocrestr Defaid a Geifr Flynyddol.

Y cafeat gyda'r ymatebion YDW yw na ddylai ansawdd y data newydd gael ei gyfaddawdu. Mae KAS yn cytuno ac yn atgyfeirio darllenwyr i'r Adolygiad o'r Stocrestr Defaid a Geifr Flynyddol [yma](#) am ymateb manylach.

Roedd yr ymatebwyr NAC YDW, sef defnyddwyr terfynol y data, yn poeni y byddai dod â'r gyfres o ddata defaid i ben yn effeithio ar eu dadansoddiadau. Gobeithio mae hwn yn help nhw egluro pam mae KAS wedi gwneud y dewis i'r defnyddio'r ffynonellau newydd.

Byddai ystadegau data 'Rhagfyr' yn dal i gael eu rhyddhau, ar yr un pryd ag arfer, felly byddai yna allbwn o hyd.

## Cwestiwn 8

**A ydych chi'n credu y byddai rhoi'r gorau i Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yn effeithio ar eich gwaith? Os ydych, dywedwch pam.**

YDW	NAC YDW	DIM YMATEB	CYFANSWM
2	4		6

Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn rhoi sylw i'r eitemau eraill a gesglir drwy Arolwg Amaethyddol Rhagfyr, ar wahân i ddefaid, sy'n cael sylw yng Nghwestiwn 7, a data gwartheg, a gesglir yn uniongyrchol o BCMS.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai dod ag Arolwg Amaethyddol Rhagfyr i ben yn effeithio arnynt, ac nid oeddent chwaith yn rhagweld unrhyw effaith ar eu gwaith.

Roedd yna deimlad y byddai data Arolwg Mehefin a data'r Stocrestr Defaid a Geifr yn ddigon, ond bod eitemau fel gwair a silwair yn ddefnyddiol (gweler Cwestiwn 10).

Roedd yr ymatebion NAC YDW yr un fath ag ar gyfer Cwestiwn 7 – na fyddai defnyddio data'r Stocrestr Defaid a Geifr yn darparu'r canlyniadau y mae Arolwg Rhagfyr yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae KAS wedi nodi bod yna feysydd eraill yn y Stocrestr y gellir eu defnyddio (diben anifeiliaid ac ati). Os byddwn yn defnyddio'r data hwn, y gobaith yw y bydd yn diwallu anghenion defnyddwyr terfynol y data.

Bydd yr adran hon yn eich helpu i lenwi ffurflen eich Stocrestr Fflynyddol This section will assist you in completing your Annual Inventory return							
Blwyddyn / Year	Nifer y Defaid Magu ac Ŵyn Benyw sydd wedi cael hwrdd / Number of Breeding Sheep & Ewe Lambs put to the ram		Defaid Eraill / Other Sheep		Geifr / Goats	Cyfanswm / Total	Dyddiad eu Cofnodi / Date Entered
	Mamogiaid / Ewes	Ŵyn benyw / Ewe Lambs	Hyrddod / Rams	Eraill / Others			

Dyma gopi o'r Llyfr Cofnod Defaid a Geifr a ddsberthir i ffermwyr yng Nghymru – gellid nodi y dylai ffurflen y Stocrestr adlewyrchu'r cwestiynau fel ag y maent yn y Llyfr Cofnod h.y. nodi nifer y mamogiaid ac ŵyn benyw a hyrddod ac eraill. Gallai hynny helpu'r defnyddwyr a atebodd YDW.



## Cwestiwn 9

Mae data gweinyddol am gnydau a gwrtaith ar gael mewn ffynonellau eraill – oeddech chi'n gwybod hynny? Os nad oeddech, hoffech chi ragor o wybodaeth?

HOFFWN	NA HOFFWN	DIM YMATEB	CYFANSWM
4	2		6

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â'r elfen gwrtaith yn hytrach na'r cnydau.

